Cofnodion Cyngor nos Iau Rhagfyr 2 2021 am 7pm
Presennol:L.Roberts, E.R.Noble, C.Brewer, T.W.Jones, C.L.Price, M.Skerrett, M.L.Hughes, M.Chapman.

Cofnodion: Cadarnhawyd cofnodion 4.11.21, cynnig C.L.Price, cefnogi L.Roberts.

Heddlu. L.Roberts wedi gofyn am wybodaeth gan y PCSO am 2 ddigwyddiad yn y pentref mewn perthynas a difrod i geir.

Yr A470. Cadarnhaodd L.Roberts ei bod wedi cyfarfod gyda I.Tegid yn y pentref, roedd loriau yn goryrru yn fater pwysig drafodwyd a'r angen i symud yr arwydd 30mya ger Pont Arenig yn ei ôl. Sylw I.Tegid eto oedd cyfeirio at yr arolwg cyflymdra yn 2022-23, mae hi mor bwysig fod barn y Cyngor Cymuned ar hyn amaterion eraill yn cael ei cynnwys yn yr arolwg hwn. Ei ymateb i ddiogelwch ar y Sgwar oedd cadarnhau ei fod wedi trafod hyn gydag A.Owen oedd wedi cadarnhau fod gwaith ailwynebu i gymryd lle ar y Sgwar ac ardaloedd cyfagos yn y flwyddyn ariannol newydd. Liz wedi cysylltu â NMWTRA hefyd i ofyn iddynt wella gwelededd i gerddwyr hefyd ar y Sgwar, angen trafod hyn gyda CBSC ac eraill o ran perchnogaeth tir.

Cyngor Sir. Cyfarfod gyda NMWTRA a CBSC yn fuan i drafod dyddiad ar gyfer gosod y 'lanterni' newydd ar y polion trydan. Mae Liz hefyd wedi cysylltu â Network Rail ynglŷn â chlirio tyfiant coed ar Pont Gethin.

Llwybrau. Atebiad gan Ioan Davies yn holi os oedd gan y Cyngor broblemau ac yn holi os oedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi cysylltu i gyfeirio at waith ger Ceunant Rhiw Goch ar afon Lledr? Clerc i gysylltu â hwy.

Yr Orsaf. Dim i'w adrodd.

Pontydd yn yr Ardal. Dywedodd L.Roberts fod llawer o drafod ac asesiadau yn cymryd lle ar gyfer symud ymlaen gyda gwaith ar Bont Sarn Ddu. Dal i ddisgwyl atebiad gan y Parc Cenedlaethol.

Cynlluniau.
9 Castle Terrace: Wedi'i caniatau
Aber: Wedi'i caniatau gydag amodau
Newydd
Ty'n Afallen
Bron Elan
Clerc yn aros am ymateb gan yr Aelodau

Llifogydd. Mae'n debygol y bydd gwaith yn cychwyn ym mis Mawrth 2022.

Scottish Power. Gwaith wedi'i gwblhau bydd rhaid aros am gyfarfod safle i arolygu'r gwaith ac i unrhyw broblemau gael eu datrys.

NRW. Dim i'w adrodd.

Terfyn gyrru 20mya. Atebiad gan Dylan Jones CBSC yn cadarnhau fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ostwng cyflymder cenedlaethol o fewn ardaloedd o 30myw i 20mya drwy Gymru gyfan ond nid yw'n debyg y bydd hyn yn cael ei gwblhau hyd canol 2023. Yn y bôn yr Heddlu sydd â chyfrifoldeb ym materion goryrru. Clerc i gael gair ag ef i gadarnhau consyrn y Cyngor.

Dosbarthu'r Post. Clerc wedi anfon at y Rheolwr yn Swyddfa Bost Bae Colwyn, dim atebiad.

Drych ar y Bont. Wedi ei atgyweirio. .

Coeden Nadolig. Erbyn hyn mae'r goeden yn ei lle a bydd Nerys Rowlands yn dod i droi'r goleuadau ymlaen. Mae diolch y Cyngor a'r ardal yn fawr i Alan 'Ginge' Farrar am drefnu i gael coeden a'i gosod yn ei lle a hynny i gyd yn ddi-dâl, Clerc i anfon i ddiolch yn fawr iawn iddo.

Toiledau. Clerc yn dal i aros am y gwaith cyfreithiol, mae'n bwriadu cael apwyntiad i weld y gyfreithwraig. Mae hefyd mewn trafodaethau gyda Cwmni Yswiriant Zurich i drefnu yswirio'r adeilad. Cadarnhaodd L.Roberts fod CBSC yn gobeithio trosglwyddo'r adeilad i'r Cyngor yn fuan yn y flwyddyn newydd.

Y Gofgolofn. Cytunodd pawb fod tir y Gofgolofn yn edrych yn arbennig o dda ar gyfer Sul y Cofio. Roedd Iwan Davies wedi atgyweirio'r ffens 'cast' yn gelfydd iawn, E.Noble wedi trafod y gwaith ar y wal ger y giat i'r Ddôl gydag E.Roberts, tebyg o bosibl mai dechrau'r flwyddyn newydd y bydd yn mynd ati gyda'r gwaith atgyweirio. Clerc wedi cysylltu ag Ian Connolly ynglŷn â mainc Teulu Minafon ac roedd ef yn hapus iawn gyda'r hyn roedd y Cyngor yn gynnig. Cytunwyd y dylai'r Clerc fynd i weld y Teulu Cassell ynglŷn â dymuniad y plant i brynu a gosod mainc er cof am eu Taid, y diweddar Reg Cassell.

Y Fynwent. Ni chafwyd unrhyw wybodaeth gan S.Teale yn dilyn y cyfarfod yn y fynwent ond roedd L.Roberts wedi cael trafodaethau gyda Haf Jones o CBSC oedd yn barod i weithio gyda'r Cyngor lleol i ddatblygu'r safle. Enwyd y Cadeirydd E.Noble, L.Roberts a C.Brewer i fynd at ei gilydd i drafod cynllun/prosiect gyda Haf. Mae gan y Cyngor eisoes is bwyllgor allai gynorthwyo wrth gwrs. Clerc i gysylltu eto ag Ian Brooks Blaenau Ffestiniog iddo ddod i'r fynwent i gael gweld safle'r Gladdgell ac awgrymu beth fuasai ef yn wneud a chael amcan bris ganddo ar gyfer hynny. Roedd Haf wedi awgrymu y dylid ystyried archwiliad GPS? Derbyniwyd amcan bris Dylan ar gyfer y gwaith o dorri'r goeden, deallwyd y bydd y gwaith yn eithaf cymhleth.

Ariannol. Rhoes y Clerc adroddiad am y sefyllfa bresennol i'r Aelodau a chytunwyd ar y biliau i'w talu, cynnig C.L.Price, cefnogi L.Roberts a pawb o blaid.

Gwefan y Cyngor. Cafwyd trafodaeth adeiladol ar hyn gan gytuno fod angen diwygio y safle presennol, Deallwyd fod Bruce Atkins wedi datgan diddordeb yn hyn os bydd angen. Cytunwyd y dylai C.Brewer a M.Skerrett drafod gyda Bruce ac adrodd yn ôl i'r Cyngor. Bydd angen talu am 'enw' i'r safle.

Cyfarfod nesaf: Cytunwyd y dylid cyfarfod nesaf yn y Pafiliwn nos Iau Ionawr 13 2022 am 7pm. Gwybodaeth gan y Clerc y bydd angen gosod y Precept ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd yn y cyfarfod hwn..